GWEITHDREFNAU DISGYBLU, YMDDYGIAD, GALLU A CHWYNION STAFF Pob ysgol - *Adran 35 a 37 o Ddeddf Addysg 2002* - *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006* - *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007*	**CYNLLUN PONTIO** Pob ysgol uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. - *Deddf Addysg 2002* - *Canllaw ar Baratoi Cynlluniau Pontio Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 – Cylchlythyr Rhif: 30/06*

*D.S. Mae'r polisïau a restrir yn rai y mae'n ddyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion i'w cynhyrchu a'u mabwysiadu ar gyfer eu hysgolion. Nid ydynt i'w cymysgu gyda pholisïau eraill a bennir yn genedlaethol ac y mae'n **ddyletswydd statudol** ar gyrff llywodraethu i'w gweithredu, er enghraifft safonau maeth, gweithredoedd o addoli ar y cyd etc.

RHESTR O BOLISÏAU A DOGFENNAU ANSTATUDOL A ARGYMHELLIR

POLISIAU ANSTATUDOL A ARGYMHELLIR	DOGFENNAU ANSTATUDOL A ARGYMHELLIR
IECHYD A DIOGELWCH *Mae'r ALl yn gyfrifol am lunio'r polisi mewn Ysgolion Cymunedol, Ysgolion Cymunedol Arbennig ac Ysgolion a Reolir* ***(gweler Canllaw i'r Gyfraith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion am safle a rhestrau deddfwriaethol)***	**CYNLLUN DATBLYGU YSGOL** Pob ysgol (Ystyrir yn ddogfen hanfodol yn cyfrannu tuag ar y gwaith o godi safonau)
POLISI GWISG YSGOL *Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion (diwygiwyd Chwefror 2010), Llywodraeth Cynulliad Cymru*	**CYNLLUN DATBLYGU LLYWODRAETHWYR** Pob Ysgol
DATBLYGIAD CYNALADWY Pob ysgol *Fframweithiau Arolygu ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*	
POLISI CHWYTHU CHWIBAN *Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Model Cylchlythyr Rhif: 036/2007*	
POLISI BWYD A FFITRWYDD YSGOL GYFAN Argymhellir erbyn Medi 2008 *Cynllun Gweithredu Archwaeth am Fywyd – dogfen wybodaeth Llywodraeth y Cynulliad Rhif: 026/2007*	

3. Dylanwadu ar a chymeradwyo Cynllun Datblygu Ysgol neu Gynllun Gwella Ysgol a chymeradwyo a monitro dyraniad a gwariant cyllideb yr ysgol

- Gwneud cynlluniau fel y gall amcanion yr ysgol a'r cwricwlwm cenedlaethol gael eu cyflawni gan ddefnyddio'r arian sydd ar gael i wneud hyn. Pan fo ysgolion yn derbyn eu dyraniad o arian bob blwyddyn, mae llywodraethwyr yn aml yn teimlo nad yw'r gyllideb yn ddigonol i ddarparu ar gyfer popeth sydd ei angen ar yr ysgol, neu i gwrdd â dyheadau rhieni a staff.
- Bydd y corff llywodraethu, neu bwyllgor llai o'r llywodraethwyr, yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â faint o arian sydd i'w wario ar beth. Er enghraifft, gwariant ar gyfer offer, trwsio, cyflogau staff ayb. Fodd bynnag, y pennaeth sy'n gyfrifol am yr arian o ddydd i ddydd ac ni fydd angen i chi brynu na chyfri'r pensiliau! Ceir mwy o wybodaeth yn Rhan 4.